NATIONAL AIDS TRUST
Securing rights
Stopping HIV

FAST TRACK CYMRU

Terrence Higgins Trust

# Un Senedd ar ôl

## Maniffesto i ddod â throsglwyddiadau newydd o HIV i ben yng Nghymru erbyn 2030



# Ein gweledigaeth

**Gallai Cymru, ac fe ddylai Cymru fod y wlad gyntaf yn y byd i ddod â throsglwyddiadau newydd o HIV i ben. Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru fachu ar y cyfle hwnnw a chyflawni ein nod hanesyddol.**

Mae'r maniffesto hwn yn nodi sut y gallwn gyflawni ein gweledigaeth gyffredin ar gyfer Cymru: Cymru sydd wedi dod â throsglwyddiadau newydd o HIV i ben, lle mae offer atal yn hygyrch i bawb a lle mae pobl sy'n byw gyda HIV yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw i gael mynediad at driniaeth a gofal, heb stigma a gwahaniaethu.

Mae datblygiadau meddygol yn golygu y gall person sy'n byw gyda HIV ac sy'n cael triniaeth heddiw fyw bywyd hir, hapus ac iach, ac na all basio HIV ymlaen[1]. Mae'r cynnydd hwn, ynghyd â'r ffaith bod y cyffur atal HIV PrEP ar gael ac y cynhelir profion HIV cyflym, yn golygu bod gennym bopeth sydd ei angen arnom i ddod â throsglwyddiadau newydd o HIV i ben erbyn 2030. Gallwn fod y wlad gyntaf yn y byd i ddod â throsglwyddiadau newydd o'r feirws i ben heb frechlyn nac iachâd.


Mae Cynllun Gweithredu HIV i Gymru[2] wedi sbarduno cynnydd yn Senedd 2021-2026. Mae Cymru wedi parhau i arwain y ffordd yn y DU drwy ei gwasanaeth Profi a Phostio ar-lein cenedlaethol, gyda mwy o bobl nag erioed bellach yn cael mynediad at brofion HIV[3]. Mae'r cyffur atal HIV, PrEP, bellach ar gael fel pigiad[4], gan helpu i fynd i'r afael â rhwystrau i fynediad. Cymru yw'r 'Genedl Llwybr Carlam' gyntaf yn y byd, gyda phob bwrdd iechyd ledled y wlad wedi llofnodi Datganiad Llwybr Carlam Paris[5] sy'n helpu i sbarduno newid drwy gydweithio traws-sector. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu rhwydwaith cefnogaeth gan gymheiriaid Cymru gyfan ac mae hefyd wedi ymrwymo i ariannu clymblaid Cymru Gyfan i barhau i weithio'n rhanbarthol ac yn genedlaethol ym maes HIV.

Fodd bynnag, os ydyn ni am lwyddo yn ein huchelgais gyffredin erbyn 2030, mae'n bryd rhoi ein troed ar y sbardun. Mae diagnosis hwyr o HIV yn parhau i fod yn broblem fawr yng Nghymru, sy'n golygu bod pobl mewn mwy o berygl o syrthio'n ddifrifol wael a phasio'r feirws ymlaen. Yn y cyfamser, mae cyfyngiadau yn ein dull o gasglu ac adrodd data HIV yn rhwystro ymdrechion i dargedu ymyriadau tuag at bobl sy'n byw gyda HIV heb ei ddiagnosio a'r rhai sy'n cael diagnosis ond nad ydyn nhw'n cael triniaeth a gofal mwyach. Er gwaethaf cynnydd meddygol, mae pobl sy'n byw gyda HIV yn parhau i wynebu stigma a gwahaniaethu, gan gynnwys mewn lleoliadau gofal iechyd. Rhaid mynd i'r afael â'r materion hyn ar frys os ydyn ni am lwyddo i ddod â throsglwyddiadau newydd o HIV i ben.

Wrth ddatblygu'r maniffesto hwn, rydyn ni wedi cynnal trafodaethau gydag ystod eang o bobl sy'n byw gyda HIV, yn ogystal â chydweithwyr yn y GIG a'n partneriaid yn y trydydd sector, ynglŷn â'r hyn y credant sydd ei angen i gyflawni ein huchelgais gyffredin erbyn 2030. Rydyn ni'n hynod ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu barn a'u profiad.



**Richard Angell OBE**
Prif Weithredwr y
Terrence Higgins Trust



**Robbie Currie**
Prif Weithredwr yr
National AIDS Trust



**Sarah Malsen**
Cyfarwyddwr Gweithredol
Fast Track Cymru

# Ein Hargymhellion

**Rydyn ni'n galw ar bob plaid wleidyddol i ailymrwymo i ddod â throsglwyddiadau newydd o HIV i ben yng Nghymru erbyn 2030 ac i adnewyddu'r Cynllun Gweithredu HIV.**

Er mwyn dod â throsglwyddiadau newydd o HIV i ben yng Nghymru erbyn 2030, rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru:

1. Ddarparu Gwasanaeth Atal HIV ar-lein cenedlaethol, gan adeiladu ar y platfform Profi a Phostio cenedlaethol ar gyfer HIV a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol er mwyn darparu mynediad ar-lein at PrEP.

2. Archwilio rhinweddau profion optio allan ar gyfer HIV a feirysau a gludir yn y gwaed mewn adrannau brys a lleoliadau iechyd eraill mewn ardaloedd lle mae'r lefelau uchaf, yn unol â chanllawiau clinigol cenedlaethol.

3. Ariannu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth HIV cenedlaethol i normaleiddio profi, gwella gwybodaeth am PrEP a mynd i'r afael â stigma, gan gynnwys drwy adnoddau addysg ar gyfer yr holl staff iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen.

4. Cynnal archwiliad cenedlaethol i nodi'r rhai a gollwyd i ofal HIV a datblygu rhaglen i ail-ymgysylltu â nhw, gan sicrhau bod anghenion gofal esblygol pawb sy'n byw gyda HIV yn cael eu diwallu drwy fuddsoddi yng ngwasanaethau cymorth hanfodol y trydydd sector.

5. Darparu System Rheoli Achosion Iechyd Rhywiol genedlaethol i wella profiad cleifion a monitro tueddiadau HIV yn well ledled y wlad drwy adroddiadau data wedi'u mireinio.

# Atal

## Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ddarparu Gwasanaeth Atal HIV Ar-lein cenedlaethol, gan adeiladu ar y platfform Profi a Phostio cenedlaethol ar gyfer HIV a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol er mwyn darparu mynediad ar-lein at PrEP.

Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain y ffordd o ran mynediad digidol at ofal iechyd drwy'r gwasanaeth profi a phostio ar-lein cenedlaethol arloesol. Mae'r gwasanaeth profi, a gyflwynwyd mewn ymateb i'r pandemig COVID-19, bellach yn gyfrifol am bron i 20% o'r profion HIV a gymerir yng Nghymru bob blwyddyn ac mae wedi codi nifer y profion yng Nghymru i'r lefelau uchaf erioed[6].

Mae profi yn ffordd hanfodol o atal trosglwyddiadau newydd o HIV: os byddwch chi'n profi'n bositif, gallwch gael mynediad at y gofal a'r driniaeth sydd eu hangen arnoch i fyw bywyd hir, iach ac i beidio â phasio HIV ymlaen; os byddwch chi'n profi'n negatif, gallwch gael mynediad at offer atal, megis PrEP a fydd yn eich atal rhag cael HIV. Fodd bynnag, er bod y cyfraddau defnydd yn codi o flwyddyn i flwyddyn, mae llawer o'r rhwystrau i gael mynediad at PrEP yn parhau.

Dim ond drwy wasanaethau iechyd rhywiol arbenigol yng Nghymru y mae modd cael mynediad at PrEP, sy'n golygu bod diffyg ymwybyddiaeth o'r offeryn atal ac nad yw pobl nad ydyn nhw'n manteisio ar wasanaethau iechyd rhywiol yn gallu cael gafael arno. Mae natur wledig Cymru a'r pellteroedd mawr y mae'n rhaid i lawer deithio i gyrraedd eu clinig iechyd rhywiol lleol yn gwaethygu'r broblem hon. Er bod 26% o'r bobl sy'n cael diagnosis o HIV yng Nghymru yn fenywod, dim ond 2% o'r rhai sy'n cael PrEP sy'n fenywod.

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru adeiladu ar lwyddiant y gwasanaeth Profi a Phostio a defnyddio'r seilwaith presennol hwn i sicrhau bod PrEP ar gael drwy wasanaeth ar-lein. Wrth i wasanaethau iechyd yng Nghymru symud tuag at ddull 'digidol yn gyntaf' o ddarparu gofal o ansawdd gwell ledled y wlad[7], rhaid cyflwyno Gwasanaeth Atal HIV Ar-lein, sy'n caniatáu un pwynt mynediad at brofion HIV yn y cartref a PrEP.



# Profi

## Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru archwilio rhinweddau profion optio allan ar gyfer HIV a feirysau a gludir yn y gwaed mewn adrannau brys a lleoliadau iechyd eraill mewn ardaloedd lle mae'r lefelau ar eu huchaf, yn unol â chanllawiau clinigol cenedlaethol.

Mae dod o hyd i bawb sy'n byw gyda HIV heb ei ddiagnosio a'r rhai nad ydyn nhw'n cael gofal, a'u cefnogi, yn hanfodol i'w hiechyd ac o ran dod â throsglwyddiadau newydd o HIV i ben.

Mae profion optio allan ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed mewn adrannau brys wedi gwneud byd o wahaniaeth mewn mannau eraill yn y DU, gan ddod o hyd i achosion newydd o HIV ac ail-ymgysylltu â'r rhai nad ydyn nhw'n cael triniaeth a gofal mwyach. Canfu data a gyhoeddwyd gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU ym mis Hydref 2025 fod dros 7 miliwn o brofion wedi'u cynnal mewn cwta 33 mis ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed mewn 34 o adrannau brys (yn Llundain, Manceinion, Brighton a Blackpool)[8]. Canfu'r rhaglen brofi 719 diagnosis newydd o HIV, 831 diagnosis newydd o Hepatitis C a 3,667 diagnosis o Hepatitis B. Nid oedd gan bron i dri chwarter y bobl a oedd newydd gael diagnosis unrhyw gofnod o brawf blaenorol ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed, gan dynnu sylw at lwyddiant y rhaglen optio allan o ran cyrraedd poblogaethau na fydden nhw fel arfer yn rhyngweithio â gwasanaethau iechyd rhywiol.

Mae llwyddiant y rhaglen hon wedi arwain at gyflwyno profion optio allan ar gyfer feirysau a gludir gan y gwaed mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yn ardaloedd trefol mwyaf yr Alban[9], gan gynnwys yn NHS Grampian[10] lle roedd nifer y diagnosisau newydd o HIV yn 2024 yn llai nag yn GIG Caerdydd a'r Fro a GIG Aneurin Bevan[11].

Mae diagnosis cynnar o HIV yn helpu i wella canlyniadau iechyd ac yn lleddfu'r pwysau ar system iechyd sydd eisoes dan bwysau gan arbed arian ar yr un pryd. Arbedwyd tua £6-8 miliwn mewn costau gofal o ganlyniad i £2.2 miliwn a wariwyd yn ystod 100 diwrnod cyntaf y cynllun[12]. Yn Croydon University Hospital, pan ddechreuon nhw gynnal profion optio allan yn 2020, ar gyfartaledd roedd claf HIV a oedd newydd gael diagnosis yn aros 34.9 diwrnod yn yr ysbyty. Ar ôl dwy flynedd o brofion optio allan ar gyfer HIV, roedd yr arhosiad wedi gostwng i ddim ond 2.4 diwrnod ar gyfartaledd[13].

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru adolygu'r dystiolaeth hon a chynnal astudiaeth serogyffredinrwydd dienw, fel yr ymrwymwyd iddi yn y Cynllun Gweithredu HIV presennol, i ddeall ymhellach cyfraddau cyffredinrwydd HIV yn y wlad. Rhaid cynnal yr astudiaeth hon o fewn blwyddyn i'r Senedd newydd a rhaid ei defnyddio i archwilio rhinweddau profion optio allan mewn adrannau brys lle mae cyffredinrwydd HIV, hepatitis B a hepatitis C ar ei uchaf. Rhaid i brofion HIV ar draws y system iechyd gyd-fynd â chanllawiau Cymdeithas HIV Prydain (BHIVA)[14] a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Gofal Iechyd[15].

# Gofal

## Cynnal archwiliad cenedlaethol i nodi'r rhai a gollwyd i ofal HIV a datblygu rhaglen i ail-ymgysylltu â nhw, gan sicrhau bod anghenion gofal esblygol pawb sy'n byw gyda HIV yn cael eu diwallu drwy fuddsoddi yng ngwasanaethau cymorth hanfodol y trydydd sector.

Mae gwasanaethau cymorth HIV, gan gynnwys cefnogaeth gan gymheiriaid a chymorth iechyd meddwl, yn rhan annatod o'r broses o helpu pobl sy'n byw gyda HIV i ddod i delerau â'u diagnosis, meithrin cymuned gyda phobl eraill sy'n byw gyda HIV a chael triniaeth a gofal. Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan HIV Outcomes UK fod 89% o bobl sy'n byw gyda HIV wedi dweud bod cael mynediad at wasanaethau cymorth HIV wedi gwella eu boddhad bywyd a'u llesiant cyffredinol, a dywedodd 78% eu bod yn teimlo eu bod yn gallu rheoli eu HIV yn well ar ôl ymgysylltu â gwasanaethau cymorth[16].

Fodd bynnag, mae rhaniadau daearyddol o ran mynediad at wasanaethau cefnogaeth gan gymheiriaid ledled Cymru ar hyn o bryd. Er bod pawb yn gallu cael mynediad at gymorth ar-lein, gan gynnwys drwy blatfform cefnogaeth gan gymheiriaid ar-lein My Community y Terrence Higgins Trust[17], mae anghysondebau o ran prosesau comisiynu byrddau iechyd yn gadael llawer o bobl sy'n byw gyda HIV gydag angen nad yw'n cael ei ddiwallu o ran cefnogaeth gan gymheiriaid neu iechyd meddwl[18]: ar adeg ysgrifennu'r maniffesto hwn, nid oes unrhyw wasanaethau cymorth HIV yn y cnawd yn y Gogledd y tu hwnt i ofal clinigol mewn clinigau iechyd rhywiol[19]. Gan fod mwy o bobl bellach yn byw'n hirach gyda HIV, gyda bron i hanner (49%) y bobl sy'n byw gyda HIV ac yn cael gofal yng Nghymru yn 50 oed a hŷn, mae'n hanfodol bod cymorth wedi'i deilwra ar waith fel y gall pobl hŷn sy'n byw gyda HIV gael mynediad at y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnyn nhw heb stigma.

> *Mae cefnogaeth gan gymheiriaid Tafod+ yn adnodd ar-lein amhrisiadwy, gyda chyfarfodydd bob pythefnos, ymdeimlad ystyrlon o gymuned a chymorth un-i-un pan fo angen. Mae'n help mawr gydag ynysigrwydd, gan ddarparu amgylchedd heb stigma, gyda defnyddwyr gwasanaethau a hwyluswyr ymroddgar. "Llinell gymorth werthfawr a mawr ei hangen.""*
>
> **Pawel,**
> **Defnyddiwr Gwasanaethau y Terrence Higgins Trust**

Mae risg hefyd nad yw nifer sylweddol o bobl ledled Cymru sydd wedi cael diagnosis o HIV yn cael triniaeth a gofal mwyach. Er nad yw Iechyd Cyhoeddus Cymru yn adrodd ar y data hwn yn genedlaethol, canfu ymchwil a gynhaliwyd gan y prosiect HIV Engagement (HIVE) yng Nghaerdydd yn 2023 nad oedd dros 20% o'u carfan cleifion mewn gofal, eu bod wedi colli mwy na 3 apwyntiad mewn 12 mis neu eu bod ond wedi mynychu clinig heb ei drefnu yn y 12 mis blaenorol[20]. O'r rhai nad oedden nhw mewn gofal, roedd gan 59% lwyth feirysol HIV canfyddadwy y tro diwethaf iddyn nhw fynychu clinig. Mae'r bobl hyn mewn perygl o fynd yn ddifrifol wael a phasio'r feirws ymlaen. Mae hyn o ganlyniad i lawer o ffactorau, gan gynnwys eu bod yn profi anghenion iechyd cymhleth, tlodi, gwahaniaethu a stigma[21 22].

Mae cynlluniau peilot o glinigau HIV a sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru a ledled y DU wedi llwyddo i ddychwelyd pobl i ofal drwy ddod o hyd i achosion, gweithgarwch dilynol â ffocws a chymorth cofleidiol i bobl[23]. Fel elfen o'r Cynllun Gweithredu HIV newydd ar gyfer Lloegr, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo £9 miliwn i ariannu menter genedlaethol i hybu cadw mewn cysylltiad ac ail-ymgysylltu, mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol[24]. Mae angen dull cenedlaethol o ail-ymgysylltu yng Nghymru i ddod o hyd i bawb sy'n byw gyda HIV, a'u cefnogi, a dod â throsglwyddiadau newydd o HIV i ben erbyn 2030.

Rhaid cymryd camau hefyd i wneud cefnogaeth gan gymheiriaid a chymorth iechyd meddwl yn hygyrch i bawb, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chefnogi pobl â HIV i fyw a heneiddio'n dda gydag urddas. Rhaid sefydlu llwybrau atgyfeirio clir at wasanaethau cymorth ac ymwreiddio cymorth iechyd meddwl arbenigol mewn gwasanaethau HIV. Rhaid i'r gwasanaethau hyn fod yn hygyrch i bobl waeth ble maen nhw'n byw yng Nghymru.



# Stigma

**Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ariannu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth HIV cenedlaethol i normaleiddio profi, gwella gwybodaeth am PrEP a mynd i'r afael â stigma, gan gynnwys drwy adnoddau addysg ar gyfer yr holl staff iechyd a gofal cymdeithasol.**

Mae stigma yn parhau i effeithio'n ddifrifol ar fywydau pobl sy'n byw gyda HIV ac yn atal pobl rhag cael mynediad at brofion, triniaeth a chymorth. Canfu arolwg Positive Voices 2022 o 4,618 o bobl sy'n byw gyda diagnosis o HIV ledled y DU y canlynol:



**Dywedodd 1 o bob 3 pherson (32.1%) fod ganddyn nhw hunan-barch isel oherwydd eu statws HIV**



**Roedd 1 o bob 7 person (13.7%) yn poeni y byddai staff gofal iechyd yn eu trin yn wahanol i gleifion eraill**



**Nid yw 1 o bob 10 person (10.4%) wedi rhannu eu statws HIV gydag unrhyw un ar wahân i staff gofal iechyd**



**Dywedodd bron i hanner (45.1%) yr ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn teimlo cywilydd am eu diagnosis**

Mae ymgyrchoedd cenedlaethol, megis Wythnos Profi HIV Cymru, yn helpu i godi ymwybyddiaeth o HIV ac annog profi. Yn 2024, arweiniodd yr ymgyrch brofi yng Nghymru at bron i 13,000 o brofion yn cael eu harchebu yn ystod mis Tachwedd, gan ennyn sgyrsiau am HIV ledled y wlad[25]. Yn ystod 2024, gwelwyd y nifer fwyaf o brofion erioed yng Nghymru, y lefelau uchaf o PrEP yn cael ei ragnodi a nifer y diagnosisau newydd o HIV yn gostwng. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i adeiladu ar y momentwm hwn a bod ymgyrchoedd cenedlaethol, megis yr Wythnos Brofi, yn parhau ac yn cael eu haddasu i ddiwallu anghenion poblogaethau allweddol.

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gymryd camau i fynd i'r afael â stigma HIV, gan ddysgu o arferion gorau sydd eisoes ar waith yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU. Rhaid i hyfforddiant ystyrlon ar HIV fod ar gael ym mhob lleoliad gofal iechyd a rhaid ariannu ymgyrchoedd cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth o HIV gydol oes Cynllun Gweithredu HIV presennol Cymru a thu hwnt i 2026.


> *"Mae stigma yn dal i siapio bywydau pobl sy'n byw gyda HIV mewn ffyrdd nad ydyn nhw bob amser yn amlwg. Rydw i wedi ei deimlo'n uniongyrchol; fe wnes i golli fy swydd, cael fy nhynnu oddi ar restr deintydd, a hyd yn oed cael rheolwr yn gwneud chwiliad ar-lein am fy meddyginiaeth. Mae'r eiliadau hynny'n aros gyda chi. Yr hyn sydd wedi gwneud gwahaniaeth go iawn yw ymgyrch stigma Fast Track Cymru. Mae wedi rhoi'r hyder, yr iaith a'r ffeithiau i mi siarad yn agored am realiti byw gyda HIV. Mae hefyd wedi fy helpu i ddod â HIV i mewn i sgyrsiau bob dydd ar draws gwahanol gymunedau, gan droi'r hyn a oedd unwaith yn ennyn distawrwydd yn gyfle i ennyn dealltwriaeth. Mae'r gwelededd hwnnw a'r ymgysylltu cymunedol ar draws Cymru yn newid agweddau ac yn helpu i ddileu stigma yn ei wraidd."*
>
> **Richard,**
> **Gwirfoddolwr Fast Track Caerdydd a'r Fro**

# Data

## Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gyflwyno System Rheoli Achosion Iechyd Rhywiol genedlaethol i wella profiad cleifion a monitro tueddiadau HIV yn well ledled y wlad.

Mae dulliau cadarn o gasglu ac adrodd data yn hanfodol i ddod â throsglwyddiadau newydd o HIV i ben erbyn 2030, gan ganiatáu monitro tueddiadau HIV a llywio ymyriadau iechyd cyhoeddus wedi'u targedu. Fodd bynnag, nid yw'r mecanwaith i hwyluso'r system wyliadwriaeth hon – System Rheoli Achosion Iechyd Rhywiol genedlaethol – yn barod eto, er gwaethaf ymrwymiad yn 2023 fel elfen o'r Cynllun Gweithredu HIV i Gymru.

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ddarparu'r System Rheoli Achosion Iechyd Rhywiol genedlaethol ar frys, er mwyn caniatáu gwaith monitro ac adrodd gwell ar amcangyfrifon o HIV heb ei ddiagnosio o fewn y boblogaeth a chyfraddau ymddieithrio mewn gofal.



# Cyfeiriadau


[1] Terrence Higgins Trust, 2025, Can't Pass It On.

[2] Welsh Government, 2023, HIV Action Plan for Wales 2023-2026.

[3] Welsh Government, 2025, Big fall in new HIV cases as testing and treatment reaches record levels

[4] Welsh Government, 2025, Written Statement: HIV Action Plan for Wales 2023-26: Annual Update

[5] Fast Track Cymru, 2025, Wales becomes the first Fast Track Nation

[6] Public Health Wales, 2025, Trends in the prevention, diagnosis and treatment of HIV in Wales- Annual report 2025.

[7] Welsh Government, 2023, Digital and data strategy for health and social care in Wales

[8] UKHSA, 2025, Public health evaluation of BBV opt-out testing in EDs in England, 33-month final report 2025.

[9] Scottish Government, 2025, Programme for Government 2025-26: Building The Best Future For Scotland

[10] Equalities, Human Rights and Civil Justice Committee, 2025, HIV Transmission Elimination Delivery Plan: Mid Plan Progress Report - Letter from the Minister for Public Health and Women's Health, 26 August 2025

[11] Public Health Scotland, 2024, HIV in Scotland: update to 31 December 2024.

[12] The Lancet, 2023, Opt-out HIV testing in the UK.

[13] Croydon Health Services NHS Trust, 2022, Groundbreaking HIV testing at Croydon University Hospital wins 'Top Global Winner' international award.

[14] BHIVA, 2020, British HIV Association/British Association for Sexual Health and HIV/British Infection Association Adult HIV Testing Guidelines 2020.

[15] NICE, 2025, HIV testing: increasing uptake among people who may have undiagnosed HIV.

[16] HIV Outcomes UK, National AIDS Trust, 2025, HIV services at the crossroads: The role of the voluntary sector and needs of communities.

[17] Terrence Higgins Trust, 2025, My Community.

[18] UKHSA, 2024, Positive Voices 2022: Survey Report.

[19] HIV Outcomes UK, National AIDS Trust & Fast Track Cymru, 2024, Living Well With HIV in Wales

[20] Dr Laura Cunninghman et al., 2024, HIV Engagement Project – Not Lost: A new approach to accessible care


[21] Adam DN Williams, 2024, HIV Engagement Project – Improving HIV Care in the Glossop Unit: Survey Report

[22] HIV Outcomes UK, National AIDS Trust, 2024, Beyond the virus: Prioritising mental health for people living with HIV in Scotland.

[23] Fraser, A. et al, 2022, Service Evaluation of the Elton John AIDS Foundation's Zero HIV Social Impact Bond intervention in South London.

[24] Department for Health and Social Care, 2025, HIV Action Plan for England 2025-2030

[25] Fast Track Cymru, 2025, Wales HIV Testing Week 2024: a community-led public health campaign to increase and diversify HIV testing in Wales.



© Terrence Higgins Trust, 2026.
Terrence Higgins Trust is a registered charity in England and Wales (reg. no. 288527).
and a registered charity in Scotland (reg no.SC039986).
Company reg. no. 1778149.